**Atodiad B**

3 Ebrill 2002

Mr Rhodri Glyn Thomas, AC

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant a’r Iaith Gymraeg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CAERDYDD

CF99 1NA

Yn ystod ein cyflwyniad tystiolaeth i’r Pwyllgor Diwylliant yn sgil yr arolwg o’r Iaith Gymraeg, gofynnwyd i mi drosglwyddo cais i Awdurdod S4C i ystyried ymarferoldeb ad-leoli pencadlys S4C.

Penderfynodd yr Awdurdod ei bod yn briodol iddo ystyried y mater ac fe wnaed hynny yn ei gyfarfod diwethaf.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Awdurdod nad yw’n ymarferol ad-leoli pencadlys S4C fel y cyfryw, yng ngoleuni cyfrifoldebau statudol S4C, o dan yr amgylchiadau presennol. Er hynny, gofynnwyd i’r swyddogion, dros gyfnod o amser, ystyried ymarferoldeb datganoli rhai agweddau o’r gwaith gweinyddol lle byddai hynny’n cyfrannu at gynnal a chryfhau ansawdd y gwasanaeth a pherthynas y Sianel â’i holl wylwyr, a lle byddai hynny’n gyson â’r dyletswydd i sicrhau’r defnydd gorau o’r cyllid sydd ar gael.

Gofynnwyd i mi wrth gyfleu casgliad yr Awdurdod drosglwyddo i’r Pwyllgor hefyd ychydig o wybodaeth a fydd yn rhoi cyd-destun ehangach i benderfyniad yr Awdurdod.

Pan sefydlwyd S4C yn 1982 gwnaethpwyd dau benderfyniad pell gyrhaeddol. Am resymau ymarferol, yn ymwneud yn bennaf â sicrhau cysylltiadau technegol dyddiol effeithiol rhwng canolfannau darlledu S4C a'r BBC yng Nghaerdydd ar y naill law a Channel 4 ar y llall, penderfynwyd mai yng Nghaerdydd y dylid lleoli pencadlys S4C. Yn ail, penderfynwyd na fyddai S4C ei hun yn cynhyrchu rhaglenni ond yn hytrach yn eu comisiynu oddi wrth gyflenwyr allanol a oedd yn cynnwys cwmni HTV a chynhyrchwyr annibynnol. Roedd S4C yn ymwybodol fod hyn yn agor y drws i sefydlu cwmnïau a chanolfannau cynhyrchu mewn gwahanol rannau o Gymru a bu'n gefnogol i'r ymdrechion hyn i'r graddau eu bod yn gyson â gofynion y gwasanaeth darlledu.

Yn ôl arolwg WERU (2000), roedd bron i 2,000 o swyddi yng Nghymru yn deillio o weithgareddau S4C gyda 41% o rhain yn yr ardaloedd Amcan 1. O'r 2,000 o swyddi hyn, tua 10% sy'n uniongyrchol gyflogedig gan S4C ei hun, sef 211 o bobl. Mae hyn yn awgrymu fod yna eisoes bedair gwaith y nifer sy'n gweithio ym mhencadlys S4C yn derbyn gwaith yn y Gogledd, y Gorllewin neu'r Cymoedd yn sgil comisiynau gan y Sianel.

Dros y blynyddoedd, buddsoddwyd arian sylweddol mewn adnoddau ac offer darlledu yn y ganolfan yng Nghaerdydd. Byddai ad-leoli yn golygu gwariant sylweddol iawn o ran ail fuddsoddi ac ail osod offer yn ogystal â goblygiadau diswyddo neu ad-leoli staff. Byddai rhai costau technegol parhaol, ynghyd â rhai costau gweinyddol, yn sylweddol uwch mewn lleoliad gwahanol i Gaerdydd. Mae S4C yn ystyried mai ei brif ddyletswydd yw sicrhau fod y cyllid sydd ar gael iddo yn ddigonol i ddarparu'r gwasanaeth cynhwysfawr a chystadleuol y mae gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i'w ddisgwyl yn yr oes aml sianelog. Nid yw Awdurdod S4C yn gweld fod yna gyfiawnhad i wanhau y gwasanaeth rhaglenni wrth ddargyfeirio arian i gyfarfod â'r costau sylweddol a fyddai'n codi yn sgil ad-leoli'r pencadlys.

Er hynny, mae S4C yn ymwybodol o'r angen i gadw cysylltiad agos â gwylwyr ymhob rhan o Gymru ac wedi cymryd nifer o gamau penodol i'r cyfeiriad hwn. Mae yna swyddfa yng Nghaernarfon lle cyflogir 6 o bobl, gan gynnwys un aelod o'r tîm comisiynu rhaglenni. Ar fwy nag un achlysur mae S4C wedi ymateb yn gadarnhaol i geisiadau gan aelodau staff i weithio'n barhaol o'r swyddfa yng Nghaernarfon lle mae hynny'n ymarferol. Mae dau gomisiynydd rhaglenni wedi bod yn gweithio o'u cartrefi yng Ngorllewin Cymru ers rhai blynyddoedd ac yn ddiweddar cyhoeddwyd fod y Comisiynydd Rhaglenni Ffeithiol hefyd bellach yn mynd i weithio o'r Gorllewin.

Yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod, bydd S4C yn ystyried yn ofalus pa gyfleoedd eraill sydd yn bodoli i leoli swyddi unigol, neu elfennau penodol o weithgarwch y Sianel, mewn lleoliadau ar wahân i Gaerdydd, gan ystyried y goblygiadau ariannol a gweithredol yn ofalus.

**Huw Jones**
PRIF WEITHREDWR